PROSIECT 100 STORI

# FY AWTISTIAETH



# STORI FER GAN BEN

DW I'N COFIO BOD PETHAU'N ANODD I MI PAN OEDDWN I YN YR YSGOL. BOB AMSER CINIO PAN FYDDAI PAWB ARALL YN SGWRSIO A CHYMDEITHASU, FE FYDDWN I AR FY MHEN FY HUN.

ROEDD GEN I OFN SIARAD, ROEDDWN I'N POENI AM DDWEUD Y PETH ANGHYWIR A SUT ROEDDWN I'N SWNIO. DOEDDWN I DDIM YN GWYBOD BETH OEDD Y PETH IAWN I'W DDWEUD.

ROEDDWN I'N TEIMLO'N DRIST YR ADEG HONNO, OND YNA, FE WNAETH MELISSA A SARAH A'R TÎM YN YR YSGOL DDECHRAU FY HELPU YN YSTAFELL 6. ROEDDEN NHW'N SIARAD EFO FI AC YN HELPU EFO FY HYDER.
ROEDDEN NHW'N MYND Â NI AM DRIPIAU I DDYSGU SGILIAU NEWYDD AC ROEDD PETHAU'N WELL.

OND Y TU ALLAN I YSTAFELL 6, ROEDD YR YSGOL YN DAL I FOD YN ANODD AC ROEDDWN I'N UNIG. ROEDDWN I WIR EISIAU FFITIO I MEWN A GWNEUD FFRINDIAU, OND DOEDD Y PLANT ERAILL DDIM YN FY NEALL AC WEITHIAU, ROEDDEN NHW'N GWNEUD HWYL AM FY MHEN.

DW I'N COFIO UN DIWRNOD, I MI FYND I SIARAD EFO GRŴP YR OEDDWN I WIR EISIAU BOD YN FFRINDIAU EFO NHW. OND FE DDYWEDODD UN O'R MERCHED WRTHA I, "PAM NA WNEI DI FYND YN ÔL I DREULIO AMSER EFO DY FFRINDIAU ERAILL?" HYNNY YDY, DOS YN ÔL I YSTAFELL 6. ROEDDWN I'N WIRIONEDDOL FLIN. YR UNIG BETH ROEDDWN I EISIAU OEDD BOD YN RHAN O'R GRŴP, OND DOEDDEN NHW DDIM YN FY NERBYN I.

ERBYN Y DIWEDD, ROEDDWN I'N HAPUS I ADAEL YR YSGOL.



ERBYN HYN, DW I'N OEDOLYN, OND DOES DIM LLAWER WEDI NEWID. DW I'N DAL I DEIMLO BOD PETHAU'N ANODD. MAE GEN I UN FFRIND, JOSH. FE WNAETHON NI GYFARFOD DRWY 'WE MIND THE GAP', MAE O I BAWB NID DIM OND I BOBL Â CHYFLWR.

DW I EISIAU CAEL RHYDDID I FYND ALLAN A CHYMDEITHASU A GWNEUD MWY O FFRINDIAU, OND DW I'N POENI Y BYDDA I'N CAEL FY NHRIN FEL ROEDDWN I YN YR YSGOL - FEL RHYWUN O'R TU ALLAN NAD OEDD YN CAEL EI DDERBYN.

DW I'N MEDDWL BOD FY MHROFIAD I A SUT Y CEFAIS I FY NHRIN GAN Y BWLIS YN YR YSGOL WEDI AROS EFO FI, AC MAE'N EFFEITHIO ARNA I HYD HEDDIW.

ROEDD AROLWG O DDISGYBLION YSGOL A WNAED YNG NGHYMRU YN 2005/2006 YN DANGOS BOD 36% O DDISGYBLION 11 OED, A 24% O DDISGYBLION 15 OED WEDI CAEL EU BWLIO YN YSTOD Y DDAU FIS BLAENOROL, AC RYDYN NI'N GWYBOD BOD ENGHREIFFTIAU O FWLIO AR LEIN YN CYNYDDU.

PE BAWN I'N CAEL CYFLE I SIARAD Â PHLANT YN YR YSGOL RŴAN, FE FYDDWN I'N GOFYN IDDYN NHW FOD YN FWY PAROD I DDERBYN POBL ERAILL A RHOI SIAWNS IDDYN NHW ER MWYN DOD I'W HADNABOD A'U DEALL YN WELL.

FY NGHAIS I ARWEINWYR YW BOD ANGEN I NI HELPU MWY O OEDOLION IFANC SYDD WEDI CAEL EU BWLIO I GAEL MYNEDIAD AT GYMORTH FEL OEDOLION, A'N BOD YN DAL I'W CEFNOGI NHW I FEITHRIN EU HYDER A'U SGILIAU CYMDEITHASOL FEL EU BOD YN TEIMLO'N RHAN O GYMUNED GO IAWN.

